

# Rheoli dolydd blodeuog ar gyfer gwenyn bwm

Gall dolydd gynnig ardaloedd pori hanfodol ar gyfer gwenyn bwm, felly mae angen eu rheoli'n ofalus er mwyn darparu gwledd o flodau gwyllt.

## Pam y dylid rheoli dolydd blodau gwyllt ar gyfer gwenyn bwm?

Mae dolydd sy'n gyfoethog mewn blodau gwyllt yn darparu ffynhonnell hanfodol o fwyd i wenyn bwm trwy'r haf, ar yr amod y gall y planhigion flodeuo. Felly mae amseru pori, y math o dda byw a lefelau stocio yn pennu safon hyn yn oed y dolydd mwyaf cyfoethog eu rhywogaethau ar gyfer gwenyn bwm.

Mae glaswelltir blodeuog yn arbennig o bwysig ar gyfer ein gwenyn bwm mwyaf prin sydd â thafodau hir ac sydd wrth eu boddau gyda dyfnder llawer o blanhigion glaswelltir. Mae cadw ein dolydd blodeuog sy'n weddill yn hanfodol felly i helpu gwenyn bwm, yn arbennig mewn ardaloedd sy'n cynnal rhywogaethau prin. Yn anffodus, er y byddai glaswelltir arfer bod yn gyffredin, mae'r rhan fwyaf wedi diflannu yn ystod y degawdau diwethaf gyda newidiadau mewn arferion amaethyddol. Mae dychwelyd i reolaeth lai dwys a mwy traddodiadol o ddolydd yn well ar gyfer gwenyn bwm gan ei fod yn cynnal llawer gwell amrywiaeth o flodau.

Mae manteision i ffermwyr a rheolwyr tir hefyd, nid dim ond arbedion ariannol posibl. Trwy ddarparu adnoddau ychwanegol ar

gyfer gwenyn bwm gallwch gynyddu pwysau cnydau tra'n lleihau'r gwariant ar gemegion amaethyddol. Mae llawer o fanteision yn hyn i'ch tir a bydd yn helpu i gadw bioamrywiaeth i'r cenhedloedd i ddod.

## Rheoli dolydd

Nod rheoli dól sydd eisoes yn flodeuog yn gyffredinol yw cynnal y weithdrefn draddodiadol. Fodd bynnag, lle bo gan laswelltir y potensial o fod o fwy o werth i wenyn bwm, gellir dilyn sawl trywydd.


### – Rhoi'r gorau i bori yn yr haf


Gall pori yn ystod yr haf leihau ansawdd y cynefin ar gyfer gwenyn bwm yn fawr gan fod da byw yn pori blodau'n ddedholus, hyd yn oed gyda lefelau isel o dda byw. Os yw'n bosibl, rhodwch y gorau i bori ar ôl canol mis Mai hyd ganol mis Gorffennaf ac yna ailgyflwynwch y da byw i bori'r tyfiant yn yr hydref.


### – Pori ysgafn yn yr haf gyda gwartheg


Os oes angen i chi bori safle yn ystod yr haf, mae'n well gwneud hynny gyda gwartheg gan y gall hyd yn oed un ddafad gael gwared ar lawer o flodau mewn dolydd, gan leihau'r gwerth ar gyfer gwenyn bwm yn fawr. Mae'n well gan ddefaid bori ar dyfiant iau, mwy melys, lle bo gwartheg yn llai detholus. Gall

## Ffeithiau allweddol

 **Cynnal a chadw**  
Torri a phori'n flynyddol

 **Addas ar gyfer**  
Glaswelltir parhaol

 **Cynaliadwyedd**  
Opsion tymor hir

 **Sgôr gwenyn bwm**  
♥♥♥♥♥



pori ysgafn adael i blanhigion flodeuo a chreu hadau o hyd.

– **Pori cylchdro** Os oes angen i chi bori yn ystod yr haf mae'n well symud da byw o gae i gae mewn cylchdro er mwyn galluogi gwahanol gaeau i flodeuo a chynhyrchu had ar wahanol adegau drwy'r haf. Gallwch ystyried ffensys dros dro fel dull arall. Mae'r mesurau hyn yn rhoi ffynhonnell parhaol o fwyd i wenyn bwm.

– **Lefel pori** Fel gydag unrhyw ddull o reoli glaswelltir, mae'n bwysig pori i'r lefel gywir. Gall peidio â phori digon arwain at ddatblygu glaswelltir tal heb lawer o flodau i'r gwenyn bwm. Yn ogystal mae'n gallu gadael i brysgoed ymwithio i'r glaswelltir. Gall pori gormod arwain at or-droedio'r tir, cyfoethogi maethol wedi lleoli a niwed i strwythur y gwair. Mae pob un o'r rhain yn newyddion drwg i ffermwyr a gwenyn bwm.

## Rheolaeth sensitif o ddolydd er mwyn helpu i warchod gwenyn bwm

<i>Rheolaeth</i>	<i>Pryd</i>	<i>Pam</i>
Amseru pori'n ofalus: osgoi pori yn yr haf neu bori caeau ar gylchdro yn ystod misoedd yr haf (gweler isod).		Gall pori yn ystod yr haf ddileu gwerth i wenyn bwm gan fod da byw yn pori blodau'n ddeholus, hyd yn oed gyda lefelau isel o stocio. Gall pori yn ystod yr haf atal llawer o flodau gwyllt rhag cynhyrchu had hefyd, fydd yn lleihau nifer y blodau sydd ar gael i wenyn bwm yn yr hafau i ddod.
Pori gyda gwartheg neu ddefaid yn yr hydref a'r gwanwyn.	Hydref a gwanwyn	Mae pori da byw yn helpu i ddarparu amodau da i hadau dyfu trwy gadw lefelau gwair yn isel, cael gwared ar hen weiriach crin a chreu llecynnau moel o dir.
Peidio â defnyddio gwrrtaith cemegol.		Bydd y defnydd o wrtaith cemegol yn annog tyfiant gwair a chwyn cryf, gan atal blodau'r maes.
Dim ond rhoi haen ysgafn o dail fferm wedi pydru'n dda a dim ond fel rhan o drefn rheoli draddodiadol.		Gall defnyddio lefelau uchel o dail fferm neu ddefnyddio tail ffres weithredu fel gwrrtaith cemegol ac achosi problemau gyda chwyn.
Llyfnu neu rolio cyn canol mis Mawrth.		Gall ymgyrchoedd yn y gwanwyn a'r haf ddinistrio nythod gwenyn bwm ac adar sy'n nythu ar y ddaear.
Dim ond ychwanegu calch er mwyn cynnal lefel pH o 5-6.5 os yw'n rhan o reolaeth draddodiadol.		Bydd cynnal lefel pH niwtral yn darparu'r amodau gorau ar gyfer amrywiaeth o blanhigion sy'n fuddiol i wenyn bwm.

### Darparu cynefinoedd nythu i wenyn bwm

Er mai cynefinoedd blodeuog sydd bwysicaf i wenyn bwm, mae angen ardaloedd nythu arnynt hefyd. Er enghraifft, gall ardaloedd o wair hir, twmpathog ar hyd ymyl cae ddarparu ardaloedd cysgodol ymhell o droedio da byw neu waith mecanyddol.

### Sefydlu rheolaeth dól

Os oes gennych fynediad i beiriannau torri gwair ac mae gennych gaeau eraill lle y gallwch gadw eich da byw yn ystod yr haf, gallech ystyried sefydlu rhyw fath o reolaeth dól. Gall gadael i blanhigion dyfu yn ystod yr haf cyn torri'r gwair roi cynefin gwych i wenyn bwm.

### Gwella glaswelltir

Weithiau gall fod yn ddigon i weithredu rheolaeth dda er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o flodau sy'n cynnal eich glaswelltir. Fodd bynnag, os nad oes ffynhonnell o hadau gerllaw, efallai bydd angen i chi gyflwyno rhywogaeth megis meillion, ffacbys a'r bengaled.

### Ariannu

Mae'n bosibl bod ffynonellau ariannu i gefnogi'r math hwn o reolaeth glaswelltir ar gael o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd neu trwy brosiectau lleol. Os yw eich tir yn gynllun amaeth-amgylchedd, trafodwch unrhyw newidiadau gyda'ch cynghorydd cytundeb.

### Cysylltu â ni

 <b>Ffôn</b>	02380 642 060
 <b>Ebost</b>	advice@bumblebeeconservation.org
 <b>Gwefan</b>	bumblebeeconservation.org



Gyda chefnogaeth  
**Ymddiriedolaeth Redwing**  
**Sefydliad Slater**